

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer y flwyddyn 2014–15

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2014-2015

Awdurdod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Lleol:

Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

1. Crynodeb

- 1.1. Yn ystod 2014-2015 mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi parhau i ailffurfio i wasanaethau er mwyn ymateb i bwysau ariannol, a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), sy'n parhau i yrru gwelliant a darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau. Mae'r adran gwasanaethau cymdeithasol wedi parhau i ddatblygu ei gwasanaethau gydag ymroddiad cadarn i atal ac ymyrryd yn gynnar, â'r nod o roi cymorth i fod yn annibynnol, a phwyslais ar gynhwysiant cymdeithasol, yn ogystal â lleihau dibyniaeth ar wasanaethau.
- 1.2. Mae datblygu strategaethau comisiynu a datganiadau sefyllfa'r farchnad o fewn gwasanaethau i blant ac oedolion wedi rhoi diffiniad gwell i'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu gwasanaethau. Mae'r ymroddiad corfforaethol i anghenion plant a phobl ifanc yn amlwg, gan fod y thema hon wedi'i hymgorffori ym mhob un o flaenoriaethau'r cyngor. Mae diogelwch, iechyd, annibyniaeth a lles pobl hŷn sy'n agored i niwed hefyd yn flaenoriaeth allweddol yng nghynllun y cyngor. Mae'r cyngor wedi bod yn weithgar wrth yrru'r agenda ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar yn ei gontractau gyda'r trydydd sector, a chyda darparwyr annibynnol. Mae angen cwblhau neu ddiweddarau cynlluniau strategol mewn rhai gwasanaethau, megis iechyd meddwl a gwasanaethau i ofalwyr, a'u hategu â chynlluniau gweithredu.
- 1.3. Mae cynnydd wedi bod mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r meysydd a nodwyd yn feysydd i'w gwella'r llynedd. Mewn rhai achosion mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo, ac mae angen gwelliant pellach. Mae'r cyngor wedi cyflwyno newidiadau gwasanaeth sefydliadol mawr i'r trefniadau mynediad ar gyfer gwasanaethau i oedolion yn ystod y flwyddyn, er mwyn paratoi ar gyfer y gwaith o gyflwyno rhaglen Un Pwynt Mynediad yn unol â'r agenda integreiddio, yn ogystal â gwella arferion mewn perthynas ag atgyfeiriadau ynglŷn â diogelu oedolion.
- 1.4. Mae perfformiad da gwasanaethau plant wedi cael ei gynnal mewn llawer o feysydd – wedi'i fesur gan ddangosyddion perfformiad – ac mae

rhai gwelliannau wedi'u gwneud mewn meysydd lle roedd perfformiad yn wannach. Mae amseroldeb asesiadau, er bod rhywfaint o welliant wedi bod yn y blynyddoedd diweddar, yn parhau i fod yn faes i'w wella o gymharu â siroedd eraill Cymru, ac mae'r cynnydd yn y gyfradd o atgyfeiriadau yn ddatblygiad siomedig. Mae ffactorau eraill fel y cynnydd sydyn yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant, y gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r rhyngwyneb rhwng gwasanaethau statudol a gwasanaethau atalio yn feysydd mae'r cyngor yn eu monitro a'u hystyried yn ofalus.

- 1.5. Mae'r cyngor wedi gweithio'n galed er mwyn gwella ymgysylltiad â'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r broses o ymgysylltu wedi cael ei harwain gan yr ymgynghoriadau 'Ailffurfio', ond mae hefyd enghreifftiau o'r cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau er mwyn casglu adborth a mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Mae'r cyngor yn cydnabod bod yr agenda hon yn dal i fynd rhagddi, ac mae'n rhaid parhau i wneud gwelliannau.

2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

Y maes i'w wella a nodwyd y llynedd	Cynnydd yn 2014-2015
Cwblhau cynlluniau strategol troswaol mewn gwasanaethau i blant	Gorffennwyd y strategaeth comisiynu ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc ym mis Medi 2014
Cynllunio strategol a gweithredu modelau gwasanaeth mewn gwasanaethau iechyd meddwl	Wedi'i gyflawni'n rhannol – mae angen datblygu a gweithredu'r strategaeth ymhellach
Gwella gweithgarwch ymgysylltu wrth gynllunio gwasanaethau	Mae gweithgarwch ymgysylltu wedi gwella, ac mae gwaith datblygu'n parhau
Ymateb i bobl sy'n gofalu am bobl sy'n defnyddio gwasanaethau i oedolion sy'n hysbys i'r gwasanaeth	Mae camau wedi'u cymryd er mwyn cynyddu gwybodaeth y cyngor am ofalwyr, a'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo
Amseroldeb asesiadau cychwynnol ac asesiadau craidd	Mae rhywfaint o welliant wedi'i gyflawni ond mae angen gwelliant pellach
Perfformiad ynglŷn ag adolygu cynlluniau gofal pobl sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol.	Mae rhywfaint o welliant wedi'i gyflawni ac mae gwelliant pellach yn yr arfaeth
Lleoliadau sefydlog ar gyfer plant sy'n derbyn gofal	Mae gwelliant wedi'i gyflawni
Cynlluniau gofal ar waith ar ddechrau lleoliad pan fydd plentyn yn dechrau derbyn gofal	Mae gwelliant wedi'i gyflawni
Ansawdd gwasanaethau gofal cartref a	Ni ellir rhoi sylwad gan fod

gomisiynir o ran dilyniant gofal	gwasanaethau gofal cartref wedi cael eu hailgomisiynu yn sgil ymarfer tendro Mae hyn wedi arwain at newid rhai darparwyr
Amseroldeb ac ansawdd cyfarfodydd strategol ynglŷn ag amddiffyn oedolyn sy'n agored i niwed	Mae rhywfaint o welliant wedi'i nodi, a chmau wedi'u cymryd er mwyn cyflawni gwelliant pellach
Sefydlu dealltwriaeth gyffredin o drothwyau amddiffyn oedolyn sy'n agored i niwed gyda phartneriaid statudol	Mae'r ddogfen drothwyau wedi cael ei llunio ond mae angen trefniadau er mwyn sicrhau bod partneriaid yn deall y ddogfen hon
Canlyniadau ar gyfer pobl sy'n gadael gofal	Nodwyd rhywfaint o welliant
Gweithredu dangosyddion perfformiad er mwyn gwerthuso datblygiadau gwasanaeth newydd yn fwy amserol	Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu. Mae adrodd ar berfformiad gwasanaethau newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes wedi cynyddu
Safoni gwell ar gyfer trefniadau rheoli perfformiad	Mae trefniadau rheoli perfformiad yn parhau i ddatblygu, gyda rhywfaint o safoni rhwng gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant yn cael ei gyflwyno

3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

- 3.1. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd ymweliadau safle â'r canlynol:
- Tîm ymateb cychwynnol gofal cymdeithasol i oedolion
 - Gweithdy perfformiad gofal cymdeithasol i oedolion
 - Gweithdy perfformiad amddiffyn plant a gofal cymdeithasol
 - Canolfannau dydd a chanolfannau busnes ar gyfer cyfleoedd gwaith
 - Rhannu Bywydau pobl hŷn a phrosiectau asiantaeth cymunedol
 - Prosiectau Byw â Chymorth
 - Canolfan Deuluoedd Wreccsam
 - Tîm gadael gofal
- 3.2. Yn ogystal, cyfarfu AGGCC â rheolwyr gweithredol ac uwch-reolwyr y cyngor yn ystod y flwyddyn, er mwyn adolygu perfformiad

gwasanaethau cymdeithasol a thrafod y cynnydd yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yng ngwerthusiad perfformiad y llynedd. Roedd y cyngor yn barod ei gymwynas wrth iddo weithio gydag AGGCC, ac yn barod i hwyluso mynediad er mwyn galluogi ymweliadau safle

- 3.3. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGGCC arolygiad thematig o Ddiogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, a'r Rhai sy'n Gadael Gofal sy'n Dangos Ymddygiad Agored i niwed neu Ymddygiad Peryglus. Cynhaliodd AGGCC hefyd arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor a chan ddarparwyr annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o'r gwasanaeth mewnol ar gyfer maethu. Mae manylion y rhain yn yr adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi, ac maent ar gael ar wefan AGGCC.

4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

- Datblygu strategaeth iechyd meddwl a chynlluniau datblygu gwasanaeth
- Perfformiad mewn perthynas ag amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed
- Adolygiad o wasanaethau i ofalwyr
- Mentrau Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol ac Un Pwynt Mynediad

5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau gofal cartref
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau i bobl sydd ag anabledd dysgu
- Adolygiad cenedlaethol o drefniadau cynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

Oedolion

Trosolwg

- 6.1. Mae'r cyngor wedi parhau i ddatblygu ei wasanaethau gwybodaeth a chyngor, ynghyd â'i dîm ymateb cychwynnol, â'r amcan o sicrhau bod pobl yn derbyn ymateb amserol ac effeithiol yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Er bod adborth cadarnhaol

wedi'i dderbyn trwy arolwg y cyngor o ofalwyr ynglŷn â darpariaeth gwybodaeth, 33.6% yn unig o ymatebwyr i'w arolwg ansawdd bywyd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddywedodd iddynt ei gael yn hawdd dod o hyd i wybodaeth a chyngor. Mae hyn yn nodi'r angen i ddatblygu a gwerthuso darpariaeth gwybodaeth â chyngor ymhellach.

- 6.2. Mae'r cyngor wedi aildrefnu'r gwasanaethau ymateb sydd yn y rheng flaen yn ystod y flwyddyn, er mwyn creu tîm ymateb cychwynnol i ymateb i bob atgyfeiriad newydd at wasanaethau i oedolion. Mae'r datblygiad hwn yn unol â'r cynllun strategol rhanbarthol cyffredinol ar gyfer datblygu rhaglen Un Pwynt Mynediad gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae nifer y swyddi ar gyfer staff a rheolwyr yn y tîm wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys penodi gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy er mwyn gwella'r ymateb cychwynnol i atgyfeiriadau iechyd meddwl. Mae cyflwyniad graddol Un Pwynt Mynediad wedi datblygu ochr yn ochr â menter Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol. Mae cynlluniau gweithredu wedi ymateb i'r gwersi a ddysgwyd o bob un o'r datblygiadau hyn.
- 6.3. Mae'r gwaith hwn o aildrefnu swyddogaethau hefyd wedi cynnwys sefydlu tîm diogelu pobl, sydd bellach o fewn y tîm Atal a Gofal Cymdeithasol, o dan reolaeth weithredol pennaeth y gwasanaeth diogelu, sydd hefyd yn gyfrifol am arwain menter Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol. Mae mentrau'n cynnwys ehangu a datblygu rôl ddynodedig y rheolwr arwain, a monitro perfformiad gwell ar gyfer diogelu oedolion. Mae canllawiau gweithredol a dogfen drothwyau wedi'u cyflwyno er mwyn cynorthwyo staff wrth iddynt wneud penderfyniadau. Hyd yn hyn nid yw'r ddogfen drothwyau wedi cael ei defnyddio'n eang er mwyn annog partneriaid statudol i ddeall trothwyau'r cyngor, ond mae'r cyngor wedi datgan ei fwriad i wneud hyn. Bydd yn rhaid adolygu hyn yng nghyd-destun rheoliadau diogelu newydd un unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 6.4. Mae amseroldeb y cyfarfodydd strategol cychwynnol a gynhaliwyd wedi gwella rhywfaint. Mae'r cyngor yn cydnabod bod angen gwelliant pellach ar y broses o gofnodi trafodaethau strategol, ansawdd ymchwiliadau, a chadeirio a chofnodi cyfarfodydd diogelu. Mae rhagor o hyfforddiant yn cael ei ddarparu. Mae'r cyngor wedi nodi'r angen i gynnal rhagor o gynadleddau achos na'r saith a gynhaliwyd y llynedd, ac mae wedi dechrau cynnwys swyddogion adolygu diogelu annibynnol o wasanaethau i blant yn y rôl hon. Mae'r cyngor yn nodi bod y gwasanaeth eiriolaeth yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd yn y broses ddiogelu, a bydd hyn yn cael ei fonitro gan y tîm diogelu pobl yn ystod 2015-2016. Cydnabuwyd yr angen i gofnodi profiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ystod y broses ddiogelu fel rhan o'r gwelliannau sydd eu hangen.

- 6.5. Mae'r cyngor wedi cynyddu lefelau staffio er mwyn ymateb i ragor o geisiadau am awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli, ond hyd yn hyn mae wedi methu cael gwared ar y rhestr aros. Mae wedi cymryd camau mewn perthynas ag achosion lle mae unigolion wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon, a bu cynnydd perthynol hefyd yn nifer yr achosion yn y llys gwarchod. Mae hwn yn dal i fod yn faes lle mae galw yn rhoi pwysau ar adnoddau.
- 6.6. Yn ôl yr arolwg ansawdd bywyd, sy'n rhoi cyfraddau bodlonrwydd cyffredinol i'r cyngor yn unol â nifer o agweddau ar wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau cymorth â thai penodol, mae lefelau o fodlonrwydd yn dal i fod yn uchel. Dywedodd 92.5% o ymatebwyr eu bod yn fodlon ar y cymorth maent yn ei dderbyn yn gyffredinol. Roedd 87.8% yn teimlo bod yr amser y gwnaethant aros i gael unrhyw asesiad o'u hanghenion yn dderbyniol, ac roedd 89.3% yn teimlo bod yr amser y gwnaethant aros am unrhyw wasanaeth neu gyfarpar ar ôl cael asesiad yn dderbyniol. Cafwyd lefelau is o fodlonrwydd yn yr ymatebion i gwestiynau penodol ynglŷn ag annibyniaeth, gweithgarwch cymdeithasol, cysylltiad â'r gymuned, iechyd a lles ac anghenion ynglŷn â llety.
- 6.7. Mae'r cyngor wedi llwyddo i gynyddu'r ganran o gynlluniau gofal a adolygwyd o fewn y 12 mis gofynnol yn ystod y flwyddyn, o 61.8% i 71.6%, oherwydd iddo gyflogi person ychwanegol. Mae amseroldeb ac ansawdd yr adolygiadau a gynhaliwyd yn parhau i amrywio. Mae'r cyngor wedi datgan ei fwriad i ystyried ymhellach sut mae adolygiadau'n cael eu cynnal yn ystod 2015-2016.
- 6.8. Mae'r cyngor wedi parhau i brofi anawsterau wrth ddatblygu cynllun gweithredu gyda gweithwyr iechyd er mwyn cefnogi'r strategaeth iechyd meddwl ranbarthol. Mae strategaeth leol wedi cael ei drafftio a'i rhannu â phartneriaid, ond nid yw wedi mynd trwy broses o ymgynghori eang eto, ac nid yw wedi cael ei hategu gan gynllun gweithredu lleol ar gyfer datblygu gwasanaeth. Mae'r cyngor yn nodi bod rhagor o weithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy ar gael. Mae gwasanaethau cymorth cymunedol wedi cael eu hehangu rhywfaint eleni, trwy gyflwyno caffi adferol gyda chymorth gwirfoddolwyr.
- 6.9. Mae defnyddio taliadau uniongyrchol wedi cynyddu eleni, yn rhannol o ganlyniad i'r gwaith o ail-dendro cytundebau gwasanaethau gofal cartref. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 83 o bobl yn penderfynu defnyddio taliadau uniongyrchol er mwyn diwallu eu hanghenion gofal. Mae'r cyngor hefyd wedi nodi cynnydd yn nifer y bobl sydd â nam niwrolegol neu nam ar y synhwyrau sydd yn derbyn taliad uniongyrchol, ond yn nodi ei bod yn bosibl bod y broses glanhau data a gynhaliwyd

wrth gyflwyno system newydd yn gyfrifol am hyn.

- 6.10. O fewn gwasanaethau anabledd dysgu dechreuwyd adolygiad o'r holl fusnesau cyfleoedd gwaith yn ystod 2014-2015, ac mae hyn yn parhau â'r nod o ddatblygu rhagor o fentrau cymdeithasol. Mae proses ymgynghori'n cael ei chynnal gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalmwyr. Pan fydd yn cael ei chyfuno â'r gwaith o ddatblygu rhagor o weithgareddau a leolir yn y gymuned a gwasanaethau alluogi, mae gan y fenter hon y potensial i hybu annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol yn y dyfodol. Bydd yn rhaid i'r cyngor ystyried sut i sicrhau bod unigolion yn parhau i gael dewis yn y tymor byr a'r tymor canolig. Ar hyd o bryd nid oes unrhyw leoliadau neu brentisiaethau o fewn y cyngor.
- 6.11. Mae'r cyngor yn ymroddedig i wella'r broses o drosglwyddo o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion, ac mae cyd-wasanaeth anabledd yn cael ei ddatblygu. Yn ystod y flwyddyn mae gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd. Er enghraifft, maent wedi darparu cynllun byw â chymorth ar gyfer dau o bobl ifanc a symudodd o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion. Yn ogystal maent wedi bod yn llwyddiannus wrth alluogi rhai unigolion i leihau'r nifer o wasanaethau y telir amdanynt yr oeddent yn eu derbyn yn flaenorol. Cynhaliwyd arolygiad o stoc tai gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ac mae rhestr aros yn benodol ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu yn cael ei chynnal ar gyfer llety â chymorth, a chyfleoedd eraill ar gyfer tai. Cafodd saith o bobl a oedd yn byw y tu allan i Wrecsam eu galluogi i ddychwelyd i'r Sir, ac mae dau gynllun byw â chymorth eraill wedi cael eu datblygu eleni. Mae'r cyngor yn cydnabod y byddai potensial i ddatblygu rhagor o gynlluniau pe bai tir a phartneriaid datblygu yn cael eu nodi. Mae gwaith ar strategaeth dai ddrafft bellach wedi cael ei ddechrau.
- 6.12. Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu er mwyn gweithredu argymhellion yr Astudiaeth o Anghenion tai a Dyheadau Pobl Hŷn Wrecsam. Yn unol â Strategaeth Tai Gofal Ychwanegol mae gwaith ar ail gyfleuster gofal yn mynd rhagddo, ac mae'r gwaith o ddatblygu trydydd un yn cael ei drafod.

Blaenoriaethau Cenedlaethol Allweddol (oedolion)

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.13. Mae'r cyngor yn datgan ymroddiad clir i wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Mae uwch swyddogion wedi cynnal cryn dipyn o ymgynghori â rhanddeiliaid a'r gymdeithas ehangach am agenda 'ailffurfio' y cyngor, a'r pwyslais mae hon yn rhoi ar ddarparu gwybodaeth a chyngor, ysgogi adnoddau cymunedol a chynyddu'r

ffocws ar wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar.

- 6.14. Mae ail-alluogi a gofal canolraddol bellach yn cael eu hystyried wrth wneud atgyfeiriadau, ac mae adroddiadau'n nodi, o'r bobl sydd wedi derbyn gwasanaeth ail-alluogi, bod 41.6% ohonynt wedi cyrraedd sefyllfa lle nad oedd angen unrhyw becyn gofal pellach, a bod 35.6% ohonynt wedi derbyn pecyn cymorth llai. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y data perfformio sy'n dangos bod nifer y bobl a chanrannau'r cleientiaid a oedd yn derbyn cymorth yn y gymuned wedi lleihau ychydig ar gyfer y grŵp 18 - 64 oed ac ar gyfer pobl sydd dros 65 oed. Mae'r cyngor yn nodi bod arferion adolygu mwy cadarn a newidiadau i'r ffordd mae oriau gofal cartref yn cael eu cyfrifo wedi cyfrannu at ostyngiad yn y nifer yr oriau cymorth a gomisiynwyd a'r cynilion ariannol perthynol. Bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol ynglŷn â'r effaith mae hyn yn ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr. Yn ogystal, mae gostyngiad wedi bod yn nifer y lleoliadau tymor hir a gomisiynwyd gan y cyngor o 475 ym mis Mawrth 2014 i 434 ym mis Mawrth 2015. Mae adroddiadau gofal canolraddol yn amcangyfrif y bydd cynilion sylweddol i wasanaethau iechyd trwy osgoi gofal cleifion mewnol .
- 6.15. Yn y blynyddoedd diweddar, mae cryn gynnydd wedi'i wneud wrth ostwng amseroedd aros am asesiad therapi galwedigaethol, darparu cyfarpar a gwneud addasiadau bach. Fodd bynnag, eleni mae gostyngiad wedi bod yn y cyflenwad o gyfarpar a darpariaeth addasiadau bach. Mae'r cyngor yn priodoli hyn i ddiffyg staff ac mae wedi rhoi sylw i'r broblem hon.
- 6.16. Mae'r cyngor wedi parhau i ysgogi cryfderau ac adnoddau'r gymuned ac adeiladu arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu rhaglen beilot asiantaethau cymunedol gyda chynghorau cymunedol, prosiect rhannu bywydau a chymorth parhaus ar gyfer clybiau cinio trwy'r fwrdeistref. Mae prosiectau bach yn y gymuned fel bod y cynlluniau cyfeillio a rhaglenni mentora cyfoedion yn derbyn cymorth trwy ddarpariaeth y cynllun grantiau cymunedol bach. Mae prosiect ar gyfer datblygu dealltwriaeth gymunedol o ddementia wedi cael ei ddarparu gyda Chymdeithas Alzheimer.
- 6.17. Mae dull y cyngor o gynorthwyo gofalwyr wedi parhau i ddatblygu, gyda phwyslais ar ddarparu gwybodaeth gan y cyngor a'r trydydd sector, gan gynnwys gwasanaeth arbenigol ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r cyngor wedi nodi 900 o ofalwyr trwy arolwg, ac wedi cysylltu â nhw. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y gofalwyr sy'n hysbys i'r cyngor, ac sydd wedi cael eu cofnodi – o 463 y llynedd i 1364 eleni. Roedd yr arolwg yn cynnwys cynnig asesiad, ac o'r gofalwyr y cynigiwyd asesiad iddynt yn y ffordd

hon, aeth llai ohonynt yn eu blaen i dderbyn asesiad na'r llynedd (o 412 i lawr i 365), ac o'r rhain, aeth 286 yn eu blaen i dderbyn gwasanaeth. Roedd y canlyniadau'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r cyngor a fydd yn cael ei defnyddio i ddiweddarau'r strategaeth i ofalwyr, sydd heb gael ei diweddarau eleni yn ôl y bwriad. Mae gwneud hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf, os yw effaith yn ymdrechion sylweddol a wnaed er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol i ofalwyr yn mynd i gael eu gwireddu.

- 6.18. Mae nifer y nosweithiau o ofal seibiant wedi gostwng eleni. Mae'r cyngor yn dweud bod y cynnydd yn nifer yr achosion cymhleth sydd angen gofal iechyd parhaol yn hytrach na chyllid gofal cymdeithasol yn rheswm posibl. Wrth i ofalwyr nodi'r angen am fwy o ofal seibiant ar eu cyfer, mae'n rhaid i'r cyngor ymchwilio i'r wybodaeth hon a gwerthuso perfformiad yn fwy manwl.

Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth.

- 6.19. Mae'r cyngor wedi gweithredu gwaith i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth, wedi'u llunio mewn partneriaeth gyda phartneriaid statudol, partneriaid trydydd sector a phartneriaid annibynnol. Mae'r rhain yn cynnwys gwella'r gwasanaeth gofal canolraddol, datblygu llwybr 'Rhyddhau i Asesu' newydd, datblygu Un Pwynt Mynediad, gweithio ar ofal heb ei drefnu, a datblygu gwasanaethau ataliol yn y gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys swyddi nyrsio arbenigol yn Ysbyty Maelor Wrecsam, rhagor o staff er mwyn galluogi'r tîm gofal canolraddol i gynnig wythnos weithio saith diwrnod, comisiynu gwelyau 'Cam i Fyny, Cam i Lawr' gan y sector annibynnol a datblygu'r gwasanaeth cwympiadau ymhellach.
- 6.20. Mae Un pwynt Mynediad wedi bod yn weithredol ers mis Mawrth 2015, gyda brocer trydydd sector a gweithiwr iechyd wedi'u cynnwys yn y tîm. Rhagwelir datblygiad pellach er bod cyllid parhaus gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dal i fod yn fater sy'n peri pryder.
- 6.21. Mae Wrecsam wedi datblygu Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Gwasanaethau integredig, er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglen gwaith integreiddio a mentrau cronfeydd gofal canolraddol. Mae defnydd o'r fframwaith hwn wedi cael ei fabwysiadu ar draws gogledd Cymru gan y Bwrdd Gwasanaethau Integredig. Mae'n bosibl y bydd newidiadau i'r grant sy'n ariannu'r mentrau hyn yn effeithio ar eu cynaliadwyedd yn 2015-2016.

Meysydd o gynnydd

- Datblygiad parhaus o wasanaethau ataliol i bobl hŷn a leolir yn y gymuned
- Ehangu prosiectau byw â chymorth
- Gweithredu dulliau ailalluogi a galluogi

Meysydd i'w Gwella

- Perfformiad yn y broses diogelu oedolion
- Gweithredu cynllun strategol a chynllun gweithredu iechyd meddwl
- Strategaeth drosfwaol a darpariaeth gwasanaethau ar gyfer gofalwyr (gan gynnwys gofal seibiant)

Plant a phobl ifanc

Trosolwg

- 6.22. Mae'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n cysylltu â gwasanaethau i blant a nodwyd yn y blynedd diweddar wedi parhau i godi yn ystod 2014-2015. Roedd nifer y cysylltiadau hyn sy'n cael eu hystyried yn atgyfeiriadau wedi cynyddu hefyd, gan arwain at y nifer uchaf namyn un o atgyfeiriadau ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Gostyngodd y nifer a ddynodwyd ar gyfer asesiad, ac er mai'r ganran ganlynol o atgyfeiriadau na ddynodwyd ar gyfer asesiad o 44% oedd y drydedd uchaf yng Nghymru, mae dadansoddiad o'r ffigurau yn dangos bod rhagor o blant yn cael eu gweld ar gyfer asesiad cychwynnol yn Wrecsam, nag ymhob cyngor yng Nghymru ond dau. Gwnaed penderfyniad o fewn 24 awr ar gyfer 98.3% o atgyfeiriadau. Derbyniodd tîm asesu plant a theuluoedd wobwr fewnol gan y cyngor yn ystod y flwyddyn a oedd yn cydnabod ei berfformiad cyson.
- 6.23. Mae'r cyngor yn egluro bod y ganran isel o gysylltiadau a ystyrir yn atgyfeiriadau yn dystiolaeth o'r effaith mae tîm cyflawni newid gyda'n gilydd a'r Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol yn ei chael lle mae newid gwybodaeth yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau yn gynnar. Fodd bynnag, mae'r gyfradd o ailatgyfeiriadau wedi codi eleni o 21.4% i 23.9%. Mae'r cyngor wedi gwella yn y maes hwn, ac mae'r cynnydd hwn yn peri pryder. Mae'n rhaid i'r cyngor fynd i'r afael â'r mater hwn. Daeth archwiliad a gynhaliwyd gan y cyngor i'r casgliad ei bod yn bosibl mai'r ffaith nad yw prosesau newydd a gyflwynwyd wrth

weithredu menter Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol wedi'u llawn ymgorffori eto sy'n gyfrifol am hyn. Ar nodyn cadarnhaol, mae'r cyngor bellach yn gallu ymateb yn fwy effeithiol trwy'r canolfannau diogelu amlasiantaethol ac yn gallu olrhain a monitro perfformiad yn well.

- 6.24. Yn sgil cyflwyno canolfannau diogelu amlasiantaethol ym mis Mawrth 2014, cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol o'r prosiect. Yn sgil hyn, adolygwyd cynllun y prosiect ac ailsefydlwyd tîm o fewn lleoliad gwasanaethau cymdeithasol i ymdrin ag atgyfeiriadau ar gyfer plant yn unig. Bydd y prosiect yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod 2015-2016.
- 6.25. Mae'r cyngor yn parhau i berfformio'n well nag unrhyw gyngor arall yng Nghymru o ran y ganran o blant a gafodd eu gweld yn ystod yr asesiad cychwynnol, er bod y ganran o atgyfeiriadau sy'n cyrraedd y cam asesu ac sy'n cael eu rhoi o dan ofal gweithwyr cymdeithasol cymwysedig wedi gostwng o 66.71% i 55.06%, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru sef 73.2%. Gwellodd perfformiad ar gyfer nifer yr asesiadau cychwynnol ac asesiadau craidd a gwblhawyd o fewn yr amserlen, ond mae Wrecsam yn dal i fod yn y chwarter isaf ar gyfer y ddau ddangosydd. Mae'n hyn yn siomedig o ystyried bod hwn wedi bod yn faes i'w wella ers nifer o flynyddoedd. Mae'n rhaid i'r cyngor ystyried ymhellach y camau sydd i'w cymryd er mwyn cyflawni'r gwelliant gofynnol.
- 6.26. Mae'r cyngor yn perfformio'n dda o ran amseroldeb cynadleddau achosion amddiffyn plant, ac mae ar yr un lefel â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o ran cyfarfodydd grwpiau craidd cychwynnol. Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi codi yn 2014-15. Ar 31 Mawrth 2015 roedd 172 ar y gofrestr, o gymharu â 132 y llynedd. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 30.3%, sy'n groes i'r gostyngiad yn y cyfanswm ar gyfer Cymru gyfan o 6.3%. Gwelir y cynnydd mwyaf yng nghategoriâu camdriniaeth emosiynol ac esgeulustod. Mae'r cyngor yn ymchwilio i'r rhesymau dros y cynnydd hwn.
- 6.27. Mae'r cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth Byrddau Lleol Diogelu Plant Sir y Fflint a Wrecsam gyflogi ymgynghorydd annibynnol i ymchwilio i brofiadau sampl fach o blant a phobl ifanc sy'n mynd drwy'r broses amddiffyn plant. Roedd rhai arsylwadau petrus yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y broses ddiogelu wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w teuluoedd, er bod lle i wella hyn. Mae'r cyngor wedi cyflwyno canllawiau i'r broses adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n hyrwyddo eiriolaeth ac yn ceisio adborth gan blant a phobl ifanc. Mae'r gwaith hwn a'r gwaith a ddechreuwyd er mwyn cyflwyno cofnodion sy'n addas i blant ar gyfer

cynadleddau achos yn ddatblygiad cadarnhaol. Mae'r cyngor wedi nodi'r angen am welliannau pellach wrth annog plant, pobl ifanc a theuluoedd i gymryd rhan mewn cynadleddau achos ac adolygiadau unigol yn ogystal ag yn y broses o ddatblygu gwasanaethau.

Blaenoriaethau Cenedlaethol Allweddol

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.28. Mae'r strategaeth gomisiynu a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014 yn ceisio sicrhau bod y cyngor yn comisiynu gwasanaethau o ansawdd sy'n bodloni ei amcanion cyffredinol i ddarparu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, wrth sicrhau bod plant a phobl ifanc yn parhau i gael eu hamddiffyn. Mae'r strategaeth yn gysylltiedig â chynllun integredig sengl y bwrdd gwasanaeth lleol (ein cynllun ar gyfer Wrecsam) a chynllun y cyngor. Mae wedi'i dylunio i weithio ochr yn ochr â strategaeth plant sy'n derbyn gofal ac i gyd-fynd â gwasanaethau er mwyn bodloni'r agenda gwrthdlodi.
- 6.29. Mae nifer o wasanaethau i deuluoedd wedi cael eu datblygu yn unol â'r agenda ataliol a gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd Wrecsam a'r tîm rhianta'n cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau ataliol a gwasanaethau cymorth, sy'n cynnwys cymorth amlasiantaethol a chymorth wrth gael mynediad at hyfforddiant, yn ogystal â chymorth â gofal plant. Gwnaeth Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, y gellir cael mynediad ato mewn nifer o ffyrdd, ragor o atgyfeiriadau y llynedd, ac mae newidiadau sefydliadol wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y tîm rhianta a'r tîm cymorth teulu yn darparu gwasanaeth gwell a hygyrch.
- 6.30. Mae tîm cyflawni newid gyda'n gilydd bellach wedi cael ei integreiddio i wasanaethau rheng flaen er mwyn sicrhau ymateb amserol i geisiadau cychwynnol am gymorth, gan ddarparu nifer o opsiynau gwahanol wrth ymateb. Nid oes rhaid i deulu gael ei ystyried yn atgyfeiriad gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cael mynediad at wasanaethau cyflawni newid gyda'n gilydd. Roedd y gwasanaeth cyflawni newid gyda'n c yn destun gwerthusiad yn 2014 a ganfu fod y gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol ac yn darparu gwasanaeth da roedd teuluoedd a sefydliadau partner yn ei werthfawrogi. Gwnaeth yr adolygiad nodi bod y tîm yn brofiadol, gan gydnabod ei gyfraniad at y broses o ddatblygu'r gwasanaeth yn rhanbarthol. Nodwyd fodd bynnag, roedd rhai teuluoedd wedi profi anawsterau sylweddol a heriau cyn i'r tîm cyflawni newid gyda'n gilydd gael ei gynnwys, ar lefel fwy cymhleth nag yr oeddent yn ei disgwyl gan wasanaeth sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar. Mae'r cyngor wedi datgan y bwriad i adolygu'r trothwy ar gyfer

plant mewn angen a phob gwasanaeth ataliol yn ystod 2015-2016, fel rhan o'r cynnig i alinio tîm cyflawni newid gyda'n gilydd yn fwy agos â'r gwasanaeth ymateb cyntaf i blant.


- 6.31. Mae'r cyngor wedi cyflwyno newidiadau i'r sesiynau o ofal seibiant mae'n eu cynnig yn ei gyfleuster mewnol, wrth ymateb i'r angen i ostwng costau. Mae'r camau a gymerwyd gan y cyngor wedi golygu, er bydd y ddarpariaeth ar gyfer chwe diwrnod yn lle saith bob wythnos, bod nifer y sesiynau sydd ar gael ar y diwrnodau hynny wedi cael eu cynyddu.
- 6.32. Gwnaeth nifer y gofalwyr ifanc sy'n hysbys i'r adran godi y llynedd o 57 i 96, ac o'r rhain nododd y cyngor fod 92 ohonynt yn derbyn gwasanaeth. Priodolir y gwelliant hwn i newid y darparwr, gyda'r gwasanaeth hwn bellach yn cael ei ddarparu gan contract rhanbarthol.

Plant sy'n Derbyn Gofal

- 6.34. Mae'r cyngor wedi mynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd yn feysydd i'w gwella yn arolygiad thematig AGGCC 'Diogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal sy'n dangos Ymddygiad Agored i Niwed neu Ymddygiad Peryglus', trwy gynllun gweithredu penodol sy'n cysylltu â'r meysydd i'w gwella roedd y cyngor eisoes yn rhoi sylw iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu strategaeth gomisiynu, tai a threfniadau trawsnewid, adolygiad o drefniadau eiriolaeth, trefniadau ymgynghori â phlant a phobl ifanc, a hyfforddiant penodol mewn perthynas â phlant sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio'n rhywiol.
- 6.35. Er bod y tueddiad tymor hir ar gyfer niiferoedd y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn Wrecsam ar i fyny, roedd gostyngiad yn y nifer a gofnodwyd y llynedd o 200 i 166. Dyma'r gostyngiad mwyaf o ran canlyniad ar gyfer cynghorau Cymru. Mae'r cyngor yn egluro bod hynny mewn ymateb i'r dadansoddiad o'r hyn a wnaeth achosi cynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal o gymharu â 2013-14, ac maent ynnodi bod y gostyngiad yn rhannol oherwydd bod swydd newydd wedi'i chreu yn y tîm ar gyfer pobl sy'n gadael gofal, a bydd deiliad y swydd yn gweithio yn uniongyrchol gyda phobl ifanc a theuluoedd lle mae perygl y bydd y person ifanc yn dod o dan y system gofal; yn ogystal â chyflawni rhai gorchmynion gofal. Mae asesiadau'n dangos bod rhoi cymorth i rai pobl ifanc sydd 16 oed neu'n hŷn fel plant mewn angen yn fwy addas na rhoi cymorth iddynt fel plant sy'n derbyn gofal. Yn ogystal, mae 12 gorchmynion gofal wedi cael eu diddymu yn ystod y flwyddyn. Mae angen gwaith pellach i alluogi'r cyngor i lawn ddeall y rheswm dros y gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae dull y

cyngor o weithredu yn cael ei ddylanwadu'n fwyfwy gan ei waith ar ddatblygu strategaeth atal ynglŷn â phlant sy'n derbyn gofal.

- 6.36. Mae dangosyddion perfformiad plant sy'n derbyn gofal wedi dangos gwelliant yn y rhan fwyaf o'r meysydd, gan gynnwys sefydlogrwydd lleoliadau lle mae cyngor wedi nodi gwelliant o 13.6% i 7.9%. Er bod perfformiad ynglŷn ag amseroldeb adolygiadau statudol yn rhoi Wrecsam yn y chwarter isaf yng Nghymru, cyflawnwyd canran o 94.7%, ac mae hyn yn dangos bod perfformiad wedi gwella dros y flwyddyn flaenorol. Mae perfformiad ar gyfer ymweliadau statudol yn dda ac yn y chwarter uchaf.
- 6.37. Mae nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ar eu pen-blwydd yn 19 oed y mae'r cyngor mewn cysylltiad â nhw'n fach. Mae'r niferoedd sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a'r rhai sydd mewn llety nad yw'n llety brys wedi cynyddu. Mae hyn yn arwydd cadarnhaol.
- 6.38. Mae'r cyngor wedi cymryd camau er mwyn gwella'r gwaith o ymgysylltu â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, yn sgil rhaglen beilot a gynhaliwyd ychydig dros 12 mis yn ôl, mae pob swyddog adolygu diogelu annibynnol bellach yn darparu cofnodion ar gyfer eu hadolygiadau sy'n addas i blant. Mae datblygiadau pellach yn cynnwys llythyr cyflwyno gan y swyddog adolygu diogelu annibynnol, sydd wedi'i bersonoli â ffotograff o'r swyddog. Hefyd gofynnir i gyngor plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal am adborth. Hefyd bydd addewid sy'n amlinellu eu rôl gan swyddogion adolygu diogelu annibynnol. Mae Wrecsam yn nodi bod y datblygiadau hyn yn arloesol yng Nghymru, a bydd cynnydd ac adborth yn cael eu hadrodd wrth grŵp swyddogion adolygu diogelu Cymru gyfan.
- 6.39. Yn ystod 2014-2015 mae'r cyngor yn nodi bod 13 o blant wedi'u cynnig i gael eu mabwysiadu, a bod dau fabwysiad gan ofalwyr maeth wedi cael eu cwblhau. Ar 31 Mawrth 2015 roedd wyth o blant a chanddynt orchmynion lleoli a oedd yn aros am leoliad, a nodwyd cysylltiadau posibl ar gyfer pump o'r plant hyn. Hefyd yn ystod y flwyddyn, daeth 26 o blant/pobl ifanc yn ôl i ofal eu rhieni, ac aeth saith i fyw gydag aelodau o'u teulu estynedig. Mae'r adran yn nodi bod rhagor o bwyslais wedi ei roi ar wella amserlenni'r cynlluniau ar gyfer lleoliadau parhaol i blant sy'n destun achosion amlinellu'r gyfraith gyhoeddus, yn unol â'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol. Yn ogystal, rhoddwyd cryn dipyn o adnoddau, lle mae'n ddiogel gwneud felly, i ddiddymu gorchmynion gofal, a gweithio gyda rhieni er mwyn galluogi plant i ddychwelyd i'r cartref. Mae'r cylch gwaith ar gyfer gofalwyr maeth therapiwtig wedi cael ei newid er mwyn caniatáu i blant sy'n hapus ac sydd wedi ymgartrefi aros yn y lleoliad hwn. Er mwyn cefnogi'r newid hwn mae gofalwyr maeth therapiwtig ychwanegol wedi cael eu recriwtio.



**Nodiadau'r gweithdy a gynhaliwyd
ar 31 Mawrth**

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Wrecsam	129	125	141	170	192	200	166

Meysydd o gynnydd

- Sefydlogrwydd lleoliadau
- Ymgysylltu â phlant a phobl sy'n derbyn gofal

Meysydd i'w Gwella

- Amseroldeb asesiadau unigol a chynadleddau achos
- Y gyfradd o atgyfeiriadau
- Deall newidiadau i berfformiad mae dangosyddion perfformiad yn eu dangos
- Cynnwys plant a phobl ifanc mewn cynadleddau achos ac adolygiadau unigol

7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

- 7.1. Mae'r cyngor yn parhau i reoli cyllid mewn ffordd gadarn. Roedd cyfrifon gofal cymdeithasol i oedolion a gofal cymdeithasol i blant yn mantoli ar

gyfer 2014-2015, ond mae'r cyngor yn wynebu'r gwaith o wneud cynilion pellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae ymgynghoriad eang wedi bod am y dewisiadau cyllidol sy'n cael eu hystyried o dan agenda 'Ailffurfio' y cyngor a chynllun y cyngor mae pob uwch-reolwr wedi cyfrannu ato. O ganlyniad, mae'r cyngor wedi llwyddo i roi enghreifftiau lle mae ymatebion i'r ymgynghoriadau wedi arwain at ddiwygiad neu newid i gamau gweithredu arfaethedig. Mewn rhai achosion, mae natur yr ymgynghoriadau wedi bod ar lefel strategol uchel, gyda'r angen i'w dilyn gydag ymgynghoriadau pellach am gynlluniau mwy penodol.

- 7.2. Mae rhai newidiadau gwleidyddol wedi bod yn y cyngor yn ddiweddar, ac mae'r cyngor wedi cydnabod bod angen gwella swyddogaethau craffu. Mae pwyllgor craffu diogelu, cymunedau a llesiant wedi parhau i dderbyn adroddiadau gan wasanaethau plant ddwywaith y flwyddyn, er mwyn mynd i'r afael â meysydd penodol i'w gwella a nodwyd ychydig o flynyddoedd yn ôl.
- 7.3. Mae hefyd rhai newidiadau strwythur uwch-reolaeth, gyda'r cyfarwyddwr statudol dynodedig ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol bellach yn ateb i'r cyfarwyddwr strategaeth a pherfformiad. Yn hyn o beth, er bod ganddo ei fframwaith atebolrwydd a chyfathrebu, mae'r cyngor yn dal i fod heb gydymffurfio â'r canllawiau statudol ar rôl cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.
- 7.4. Mae'r cyngor yn parhau i ddatblygu gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac mae nifer o sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi'u cynnal ar gyfer aelodau o'r cyngor, staff a rhanddeiliaid, er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r Ddeddf, ac i sicrhau bod gwasanaethau newydd a strwythurau sefydliadol yn cael eu datblygu yn unol â'r ddeddf hon.
- 7.5. Mae'r cynlluniau comisiynu trosfwaol ar gyfer gwasanaeth i oedolion a gwasanaethau i blant – sy'n cael eu hategu gan dadansoddiad o sefyllfa'r farchnad – yn darparu cyfeiriad cyffredinol clir ar gyfer y dyfodol. Cymerodd y cyngor ran mewn darn mawr o waith yn 2014-2015 gyda darparwyr allanol er mwyn datblygu dealltwriaeth o ddynameg y farchnad, a ddefnyddir ar gyfer gofal cartref a chomisiynu'r gwasanaethau hyn er mwyn cefnogi'r agenda ailalluogi. Arweiniodd hyn at gontract gofal cartref newydd a oedd yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Mae gan y cyngor dîm monitro contractau sefydlog, ond bydd yn rhaid datblygu'r sgiliau a'r fethodoleg sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod comisiynu gofal cartref a gofal preswyl sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cyflawni'r manteision a fwriadwyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

- 7.6. Mae'r cyngor wedi cymryd camau pellach er mwyn gwella dulliau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwaith o adrodd ar berfformiad a chynnwys rheolwyr a staff yn y broses o sicrhau ansawdd a gwella gwasanaethau yn parhau i fod wedi'i ddatblygu'n well mewn rhai gwasanaethau nag mewn eraill. Mae'r rheolaeth integredig ar gyfer diogelu oedolion a phlant yn ategu'r broses o fonitro perfformiad ac adrodd arno wrth ddiogelu oedolion, trwy ddefnyddio profiad gwasanaethau i blant. Mae angen gwelliant pellach yn y maes hwn.
- 7.7. Canfu Adolygiad Cenedlaethol AGGCC o Ddiogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n dangos Ymddygiad Agored i Niwed neu Ymddygiad Peryglus fod arweinyddiaeth glir ag ethos cadarnhaol yn nhîm rheoli gwasanaethau i blant, a bod trefniadau rhianta corfforaethol yn gadarn. Er y nodwyd bod gan aelodau etholedig ddealltwriaeth gyfyng o'r potensial i blant gael eu hecsbloetio'n rhywiol yn yr ardal, mae camau wedi'u cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.
- 7.8. Mae'r cyngor yn dangos menter ac uchelgais ynglŷn â datblygu gwasanaethau newydd a phrosiectau mewn cydweithrediad ag asiantaethau statudol neu asiantaethau trydydd sector. Mewn rhai achosion (prosiect canolfannau diogelu amlasiantaethol er enghraifft) bu'n rhaid i reolwyr prosiect a threfniadau partner fynd trwy addasiadau mawr. Mae'r cyngor wedi dysgu gwersi o'r problemau hyn ac wedi cymryd camau er mwyn mynd i'r afael â nhw.
- 7.9. Yn yn ystod y flwyddyn, mae'r cyngor wedi ymgysylltu â chydweithwyr corfforaethol yn ogystal â phartneriaid yn y llywodraeth a phartneriaid statudol wrth ystyried y goblygiadau gofal cymdeithasol ar gyfer carchar yn Wrecsam. Er bydd hyn yn dod â manteision economaidd i'r sir, mae'r broses gynllunio wedi creu gwaith ychwanegol ar gyfer rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, ac fe fydd yn effeithio ar gyllid gwasanaethau cymdeithasol, a chapasiti staff a rheolwyr yn y dyfodol. Er bod y costau ychwanegol am fodloni anghenion gofal cymdeithasol carcharorion unigol yn cael eu hystyried, nid yw'n glir i ba raddau mae'r pwysau ychwanegol ar gapasiti rheoli o fewn gwasanaethau i oedolion yn ystod y cyfnod cynllunio wedi cael eu cydnabod.
- 7.10. Ar y cyfan mae'r cyngor wedi bod yn llwyddiannus wrth gynnal gweithlu sefydlog, gyda staff asiantaeth bellach yn cael eu defnyddio er mwyn cyflenwi absenoldeb salwch tymor hir ac absenoldeb mamolaeth. Mae newidiadau sefydliadol wedi arwain at friff eang ar gyfer rheolwyr, a bydd angen adolygu effaith y newidiadau hyn.

- 7.11. Mae cyfarfodydd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn rhwng aelodau ac uwch-aelodau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – a sefydlwyd yn 2013 – wedi parhau i roi'r cyfle i drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin. Mae'r cyngor yn parhau i brofi anawsterau wrth effeithio ar yr agenda hwn mor effeithiol ag yr hoffai.
- 7.12. Mae'r cyngor yn datgan ymroddiad i ddull rhanbarthol neu ddull isranbarthol o weithredu lle y gellir dangos manteision i wneud hyn. Mae'r cydweithrediad rhanbarthol rhwng cynghorau wedi parhau mewn nifer o feysydd, megis sefydlu byrddau diogelu rhanbarthol ac mewn perthynas ag agenda gwasanaethau integredig. Yn ogystal, mae'r cyngor yn rheoli tîm dyletswydd argyfwng gogledd-ddwyrain Cymru a'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol. Mae'r berthynas â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i fod yn heriol wrth ddatblygu cynllunio gwasanaeth strategol a datblygu gwasanaethau, ac wrth sefydlu trothwyau gofal iechyd parhaus y cytunir arnynt. Mae cyddatbygiadau ynglŷn â gofal canolraddol wedi cynyddu'n dda hyd yn hyn, ac wedi dangos rhywfaint o arloesedd a datblygiad gwasanaeth creadigol. Mae angen i'r cyngor ystyried ymhellach a oes cyfleoedd effeithlonrwydd ychwanegol i'w cael trwy ddull mwy rhagweithiol o gydweithio â chynghorau eraill.

Meysydd i'w Gwella

- Datblygu trefniadau rheoli perfformiad mewn rhai meysydd yn barhaus
- Datblygu dulliau cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ymhellach gyda chynghorau newydd a gwasanaethau statudol.